PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD MERCHER, 17 EBRILL 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Jones(Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Asghar Ali, Driscoll, Gordon, Hudson, Jacobsen, Jones-Pritchard a/ac Sattar |

79 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Y Cynghorwyr Ali Ahmed a Lay

80 : COFNODION

Llofnodwyd Cofnodion 20fed Mawrth 2019 fel cofnod cywir.

81 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

82 : DEISEBAU

Rhif Cais: 19/00491/DCH, 6 Clos Elphan, Trowbridge

83 : GORCHYMYN CAU, PAFILIWN BUTETOWN, HEOL DUMBALLS, BUTETOWN

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor Cynllunio gyfarwyddo Gwasanaethau Cyfreithiol i wneud Gorchymyn Cau dan Adran 116 Deddf Priffyrdd 1980 ym Mhafiliwn Butetown, Heol Dumballs, Butetown.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor i roi cyfarwyddyd i’r Gwasanaethau Cyfreithiol i fwrw ymlaen â Gorchymyn Cau dan Adran 118 Deddf Priffyrdd 1980.

84 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Ystyriodd y Pwyllgor yr atodlen o geisiadau rheoli datblygu a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

PENDERFYNWYD: Y dylai’r Pwyllgor benderfynu ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn unol â phwerau a ddirprwyir iddo ac yn ôl yr argymhellion a nodir yn adroddiad Cyfarwyddwr Gweithrediadau’r Ddinas yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach fel y manylir arnynt isod, a rhoi gwybod am y penderfyniad yn unol ag Adran 70 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu Adran 16 neu Adran 74 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth 1990).

# CEISIADAU A GANIATEIR

19/00165/MNR – Y TYLLGOED

RHAN O DIR YNG NGHEFN 19 HEOL FAIRWOOD

Newidiadau i annedd ar wahân newydd gan gynnwys parcio mynediad a ffensys terfyn - a gymeradwywyd yn flaenorol o dan 17/000711 / MNR

# CEISIADAU WEDI'U GWRTHOD

18/01669/MJR – PLASNEWYDD

217 I 223 HEOL CASNEWYDD
Bwriad i ddymchwel rhandy presennol rhif 223 ac adeiladau yn y cefn i 217-223 Heol Casnewydd ac adeiladu dau Dŷ Amlfeddiannaeth 15 gwely ac un Tŷ Amlfeddiannaeth 6 gwely gydag amwynderau ar y safle, parcio, storfa beiciau a sbwriel.

# CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO

19/00491/DCH – TROWBRIDGE

6 CLOS ELPHAN, LLANEIRWG
Addasu garej ddwbl i fod yn ddarpariaeth llety preswyl gyda pharcio wedi'i haddasu'n allanol

RHESWM: Er mwyn i ymweliad safle â'r lleoliad hwn gael ei gynnal.

# CEISIADAU A DYNNWYD YN ÔL O'R AGENDA

19/00397/MJR – TREDELERCH

SAFLE TIRLENWI FFORDD LAMBY
Gosod fferm ynni haul ffotofoltaidd ar y ddaear a datblygiad ategol.

85 : CEISIADAU A BENNIR GAN BWERAU DIRPRWYEDIG

Nodwyd

86 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 2.35 pm